**DEDDF DRWYDDEDU 2003**
TRWYDDED ANHEDDAU

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

**ydded anheddau**

**PRM 0255 (06/02/2020)**

**- Manylion am y safle**

**Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad**

**RUMMERS WINE BAR**

**PONT TREFECHAN**
**HEOL Y BONT**

| | |
|---|---|
| **Tref bost**<br>**ABERYSTWYTH** | **Cod Post**<br>**SY23 1XD** |
| **Rhif ffôn**<br>**01970 625 177** | |

**Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau**

**NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED**

**Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded**

**<u>ADLONIANT WEDI EU REOLEIDDIO:</u>**
**CERDDORIAETH FYW**
**CERDORRIAETH WEDI'I RECORDIO**

**DARPARU LLUNIAETH YN HWYR YN Y NOS**

**CYFLENWI ALCOHOL**

| |
|---|
| **Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**<br><br>**<u>ADLONIANT WEDI EU REOLEIDDIO:</u>**<br>**CERDDORIAETH FYW**<br>**LLUN – SUL: 1100 – 0200 yn ddyddiol**<br><br>**CERDORRIAETH WEDI'I RECORDIO**<br>**SUL – IAU: 1100 – 0200 yn ddyddiol.**<br>**GWE A SAD: 1100 – 0300 yn ddyddiol**<br><br>**DARPARU LLUNIAETH YN HWYR YN Y NOS**<br>**LLUN – SUL: 2300 – 0200 yn ddyddiol**<br><br>**CYFLENWI ALCOHOL**<br>**SUL – IAU: 1100 – 0200 yn ddyddiol**<br>**GWE A SAD: 1100 – 0300 yn ddyddiol**<br><br>**<u>AMSEROEDD ANSAFONOL</u>**<br>**NOS GALAN – O ddechrau oriau Nos Galan tan ddiwedd oriau ar Ionawr 1af.** |
| **Oriau agor y safle**<br><br>**SUL – IAU: 1100 – 0230 yn ddyddiol**<br>**GWE A SAD: 1100 – 0330 yn ddyddiol**<br><br>**NOS GALAN: O ddechrau oriau Nos Galan tan ddiwedd oriau ar Ionawr 1af.** |
| **Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno**<br><br>**AR AC ODDI AR Y SAFLE** |

| |
|---|
| **Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol) deilydd y drwydded safle**<br><br>**LONDON & MIDLAND LTD**<br>**THE OAKLEY**<br>**KIDDERMINSTER RD**<br>**DROITWICH**<br>**WORCESTER**<br>**WR9 9AY** |
| **Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n berthnasol)**<br><br>**05644454** |
| **Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol**<br><br>**MARCUS EDWARD SEDGHI** |
| **Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol a ddelir gan y Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol**<br><br>**CER 1361**<br><br>**CYNGOR SIR CEREDIGION** |

**Atodiad 1 – Amodau Mandadol**

**<u>Amodau mandadol os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol</u>**

(1) Ni ellir cyflenwi alcohol o dan drwydded safle-

- (a) ar adeg pan na fydd goruchwyliwr safle dynodedig ar gyfer trwydded safle, neu
- (b) ar adeg pan na fydd gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.

(2) Mae'n rhaid i unrhyw alcohol a gyflenwir o dan y drwydded safle gael ei gyflenwi neu ei awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

**<u>Amod Mandadol pan fo'r Drwydded Safle yn cynnwys Amod bod yn rhaid i un neu ragor o unigolion fod yn yr adeilad i gyflawni dyletswyddau diogelwch ar amseroedd penodol</u>:**

(1) Mae'n rhaid i bob unigolyn o'r fath fod wedi'i drwyddedu gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch.

(2) Ond nid oes unrhyw beth yn (1) uchod sy'n golygu bod yn rhaid gorfodi'r fath amod—

- (a) o ran safleoedd sydd ym mharagraff 8(3)(a) o Restr 2 y Ddeddf Diwydiant Diogelwch Personol 2001 (c. 12) (safleoedd sydd â thrwydded safle sy'n caniatáu dramâu neu ffilmiau), neu
- (b) o ran safleoedd mewn perthynas ag—
  - (i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Rhestr honno (safleoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl gan glwb sydd â thystysgrif clwb, o dan rybudd digwyddiad dros-dro sy'n caniatáu dramâu neu ffilmiau neu o dan drwydded gamblo), neu
  - (ii) unrhyw achlysur sydd ym mharagraff 8(3)(d) o'r Rhestr honno (achlysuron wedi'u pennu gan reoliadau o dan y Ddeddf honno).

(3) At ddibenion yr adran hon—

- (a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Rhestr honno yn berthnasol iddo, ac
- (b) mae paragraff 8(5) o'r Rhestr honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol gan ei bod yn berthnasol o ran paragraff 8 o'r Rhestr honno.

# <u>Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014</u>

**Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014**

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.

2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-

   (a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(**6)**;

   (b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –

   P = D + (DxV)

   pan mai –

   (i) P yw'r pris a ganiateir

   (ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a

   (iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol

   (c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw –

   (i) Deiliad y drwydded safle,

   (ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu

   (iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;

   (d) ystyr "person perthnasol', mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac

(e) ystyr “treth ar werth” yw treth ar werth sy’n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)

3. Os nad yw’r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i’r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai’r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw’r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi’i dalgrynnu i fyny i’r geiniog agosaf.

4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw’r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod (“y diwrnod cyntaf”) yn wahanol i’r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf (“yr ail ddiwrnod”) o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu’r dreth ar werth.

(2) Mae’r pris a ganiateir sy’n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy’n digwydd cyn i’r cyfnod o 14 diwrnod sy’n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014.**

**Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.**

**1.** (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

**2.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

**3.** (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

**4.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ peint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

**Atodiad 2 – Amodau sy’n gyson â’r Rhestr weithredu**

**a) Cyffredinol**

Bydd y llawr gwaelod uchaf yn cael ei ddefnyddio fel bar lolfa, gyda’r pwyslais ar ddarparu bwyd, coctels a gwin. Mae gan y llawr gwaelod isaf trwyddedig presennol 13 o wahanol fathau o gwrw, ond dim ond 3 math o gwrw drafft fydd ar gael ar y llawr gwaelod uchaf. Y bwriad o ran gweithredu yw bod rhai cwsmeriaid yn mynd i’r bar lolfa ar y llawr gwaelod uchaf i fwyta neu i fwynhau gwin neu goctels, cyn mynd i’r llawr gwaelod isaf efallai pan fydd yr adloniant byw yn dechrau yno. Bydd y bar lolfa’n cynnwys byrddau’n bennaf, gyda gwasanaeth gweini bwyd wrth y bwrdd ac ati. Dim ond hyn a hyn o le sefyll fydd ar gael yno. Bydd y gerddoriaeth fyw o’r llawr gwaelod isaf yn cael ei ‘beipio’ neu’i ffrydio i’r bar lolfa, oherwydd mi fydd i’w glywed ar y llawer gwaelod uchaf beth bynnag. Yn hytrach na chael sain sydd wedi’i bylu’n dod o’r llawr gwaelod isaf, trwy ddefnyddio meicroffonau, gellir atgynhyrchu’r gerddoriaeth fel sain glir ar y llawr gwaelod uchaf, gan reoli lefel y sŵn. Ar wahân i’r sain hwn sydd wedi’i atgynhyrchu, ni fydd unrhyw adloniant rheoledig annibynnol ar y llawr gwaelod uchaf. Ni fydd y fflat/llety preswyl a ddangosir ar y cynllun o’r llawr gwaelod isaf yn cael ei ddefnyddio o gwbl mewn cysylltiad â gweithgareddau trwyddedig. Ni fydd yr amrywiad yn ychwanegu mewn unrhyw ffordd sylweddol neu arwyddocaol at effaith gronnol y safle trwyddedig presennol, am fod y safle hwn yn gysylltiedig â gweithgareddau trwyddedadwy ers blynyddoedd lawer. Er bod yr ymgeisydd am gael hyblygrwydd yr amseroedd a osodir yn y rhaglen weithredu bresennol mewn perthynas ag oriau agor a gweini alcohol, rhagwelir yn gyffredinol mai pur anaml y bydd y defnydd o’r llawr gwaelod isaf yn ymestyn tu hwnt i ganol nos.

**b) Atal troseddau ac anhrefn**

**Goruchwylwyr drysau**

Pryd bynnag y cynhelir digwyddiad adloniant rheoledig sy’n cynnwys cerddoriaeth a dawnsio ar y safle, bydd gan y safle ddau oruchwyliwr drysau ar gyfer bob 100 o bobl sydd ar y safle (lawr staer) neu ran ohono, a byddant ar ddyletswydd o’r adeg y bydd y digwyddiad adloniant rheoledig yn dechrau nes bod y digwyddiad adloniant rheoledig yn dod i ben.

Pryd bynnag y cynhelir digwyddiad adloniant rheoledig sy’n cynnwys cerddoriaeth a dawnsio ar y safle, bydd gan y safle ddau oruchwyliwr drysau ar gyfer bob 100 o bobl sydd ar y safle neu ran ohono, a byddant ar ddyletswydd o’r adeg y bydd y digwyddiad adloniant rheoledig yn dechrau nes bod y digwyddiad adloniant rheoledig yn dod i ben.

Ni fydd unrhyw oruchwylwyr drysau ar gyfer y llawr gwaelod uchaf am na fydd unrhyw adloniant rheoledig annibynnol yn cymryd lle ar y llawr gwaelod uchaf.

**CCTV**

Mae system CCTV wedi’i gosod ac mae ar waith ar y safle.

Gosodir hysbysiad ger mynedfa’r safle yn rhoi gwybod i gwsmeriaid bod system CCTV ar waith.

Y system CCTV i gwrdd â safonau gofynnol Heddlu Dyfed Powys

**Poteli a gwydrau**
Ni fydd cwsmeriaid sy'n cario gwydrau neu boteli agored neu rai sydd wedi'u selio yn cael mynediad i'r safle ar unrhyw adeg.
Ni chaniateir i gwsmeriaid i gymryd poteli agored neu wydrau o alcohol neu ddiodydd ysgafn oddi ar y safle.
Ceir trefn reolaidd ar gyfer symud poteli neu wydrau gwag o unrhyw ardaloedd cyhoeddus.
**Digwyddiadau Hyrwyddo Diodydd**
Ni chaniateir unrhyw nosweithiau hollgynhwysol neu ddigwyddiadau sy'n hyrwyddo diodydd mewn modd anghyfrifol.
**Cyffuriau**
Hysbysir yr Heddlu am unrhyw amheuaeth neu achosion o ddefnydd anghyfreithlon o gyffuriau. Mae cyfleuster diogel ar gael ar y safle i storio unrhyw gyffuriau rheoledig y deuir o hyd iddynt ar y safle nes iddynt gael eu casglu gan yr Heddlu.
**Rhybuddion**
Gosodir hysbysiadau o amgylch y safle'n rhybuddio cwsmeriaid y gallant, os byddant yn ymddwyn mewn ffordd amhriodol, gael eu gwahardd o'r safle a'r holl safleoedd trwyddedig cyfagos.
Dylid gosod unrhyw gyfyngiadau o ran caniatáu mynediad i blant a phobl ifanc i'r safle y tu allan i'r safle.
**Cynllun Bihafio neu Cewch eich Banio (BOBB)**
Bydd y safle'n aelod gweithredol o'r cynllun BOBB.

c) **Diogelwch Cyhoeddus**

**Goruchwylwyr Drysau**
Defnyddir un goruchwyliwr drysau pan fydd adloniant rheoledig (ar wahân i gerddoriaeth gefndir) yn cymryd lle ar y safle rhwng yr oriau 21:00 - 02:40 neu nes bod y safle'n cau, os yw hynny'n gynt.
**CCTV**
Mae system CCTV wedi'i gosod ac mae ar waith ar y safle.
Gosodir hysbysiad ger mynedfa'r safle yn rhoi gwybod i gwsmeriaid bod system CCTV ar waith.
Y system CCTV i gwrdd â safonau gofynnol Heddlu Dyfed Powys
**Poteli a gwydrau**
Ni fydd cwsmeriaid sy'n cario gwydrau, neu boteli agored neu rai sydd wedi'u selio, yn cael mynediad i'r safle ar unrhyw adeg.
Ni chaniateir i gwsmeriaid i gymryd poteli agored neu wydrau o alcohol neu ddiodydd ysgafn oddi ar y safle.
Ceir trefn reolaidd ar gyfer symud poteli neu wydrau gwag o unrhyw ardaloedd cyhoeddus.
**Digwyddiadau Hyrwyddo Diodydd**
Ni chaniateir unrhyw nosweithiau hollgynhwysol neu ddigwyddiadau sy'n hyrwyddo diodydd mewn modd anghyfrifol.
**Cyffuriau**

Hysbysir yr Heddlu am unrhyw amheuaeth neu achosion o ddefnydd anghyfreithlon o gyffuriau. Mae cyfleuster diogel ar gael ar y safle i storio unrhyw gyffuriau rheoledig y deuir o hyd iddynt ar y safle nes iddynt gael eu casglu gan yr Heddlu.

**Rhybuddion**

Gosodir hysbysiadau o amgylch y safle'n rhybuddio cwsmeriaid y gallant, os byddant yn ymddwyn mewn ffordd amhriodol, gael eu gwahardd o'r safle a'r holl safleoedd trwyddedig cyfagos.

Dylid gosod unrhyw gyfyngiadau o ran caniatáu mynediad i blant a phobl ifanc i'r safle y tu allan i'r safle.

**Cymorth Cyntaf**

Mae cyfarpar a deunyddiau cymorth cyntaf digonol a phriodol ar gael ar y safle, wedi'u lleoli yn y gegin.

**Effeithiau arbennig**

Ni chaniateir defnydd o effeithiau arbennig ar y safle.

Mae effeithiau arbennig yn golygu:

- Peiriannau iâ sych a niwl cryogenig
- Peiriannau mwg a pheiriannau cynhyrchu niwl
- Pyrotechneg, gan gynnwys tân gwyllt
- Fflamau go iawn
- Drylliau/Arfau
- Cerbydau Modur
- Goleuadau strôb
- Goleuadau laser
- Ffrwydron a sylweddau hynod fflamadwy

**Cynllun Bihafio neu Cewch eich Banio (BOBB)**

Aelod gweithredol o'r cynllun BOBB

Diogelwch Tân

Cedwir at y Rheoliadau Tân cyfredol

**d) Atal niwsans cyhoeddus**

Adloniant rheoledig wedi'i gyfyngu i lawr staer y safle'n unig.

Ffenestri lawr staer yr eiddo'n cael eu cadw ar gau yn ystod adloniant rheoledig i gyfyngu ar y sŵn sydd i'w glywed o'r tu allan.

Hysbysiadau amlwg, clir a darllenadwy wedi'u gosod ger bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid i barchu anghenion y trigolion lleol, a gadael y safle a'r ardal yn dawel.

Nid yw'r ymgeisydd yn caniatáu defnyddio ffrwydron, pyrotechneg a thân gwyllt, nac unrhyw effeithiau o natur debyg a allai amharu ar eiddo cyfagos.

Caniateir gosod poteli mewn biniau y tu allan i'r safle rhwng yr oriau 0900 a 1700 yn unig i osgoi aflonyddu ar eiddo cyfagos.

Ni chaniateir chwarae cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio yng ngardd gwrw'r safle.

**Arogleuon afiach**

Mae'r systemau awyru ac echdynnu wedi'u cynllunio a'u cynnal i atal arogleuon afiach rhag achosi niwsans i eiddo cyfagos.
Mae'r biniau sbwriel yn cael eu glanhau â diheintydd.

**Llygredd Golau**

Nid yw'r safle'n defnyddio goleuadau fflach y tu allan i'r safle, mae unrhyw oleuadau diogelwch neu oleuadau mynediad wedi'u gosod neu'n cael eu gweithredu i osgoi achosi niwsans i eiddo cyfagos.

**Sbwriel**

Mae gan y safle gytundeb casglu sbwriel gyda Chyngor Sir Ceredigion, sy'n casglu'r gwastraff ddwywaith yr wythnos.

**e) Amddiffyn plant rhag niwed**

Mae gan y safle arwyddion clir yn esbonio'r cyfyngiadau o ran mynediad i blant a phobl ifanc dan 18 oed.
Mae'r cyfyngiadau oedran ar waith rhwng yr oriau 2100 a 0340.
Caniateir mynediad i blant cyn 2100 cyn belled â bod ganddynt rywun 18 oed neu drosodd yn eu goruchwylio, ac i'r perwyl hwn, mae goruchwylio'n golygu bod yn bresennol yn yr un rhan o'r safle â'r plentyn dan oruchwyliaeth. Ni chaniateir i blant fod ar y safle ar ôl 2100.
Gweithredir polisi 'Challenge 21'.

**Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawiad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu**

**CYTUNDEB CYFRYNGU:** Wedi'i gynnwys mewn llythyr dyddiedig 13.9.05 oddi wrth Gyfreithwyr yr Ymgeisydd, Morris and Bates, mewn ymateb i sylwadau a dderbyniwyd gan PC John EVANS, Swyddog Trwyddedu'r Heddlu.

**Cytunwyd ar y materion canlynol:**
**Goruchwylio drysau:** Pryd bynnag y bydd digwyddiad adloniant rheoledig sy'n cynnwys cerddoriaeth a dawnsio'n cymryd lle ar y safle, mi fydd gan y safle ddau oruchwyliwr drysau ar gyfer bob 100 o bobl sydd ar y safle neu ran ohono, a byddant ar ddyletswydd o'r adeg y bydd y digwyddiad adloniant rheoledig yn dechrau nes bod y digwyddiad adloniant rheoledig yn dod i ben.

**Diogelwch Cyhoeddus:** Bydd yr ymgeisydd yn rhoi gwybod i'w gwmni yswiriant am yr oriau newydd dan y Rhaglen Weithredu newydd, ac mae ein cleient wedi derbyn y cyngor hwnnw, felly does dim angen cynnwys unrhyw amod yn y Rhaglen Weithredu.

**Amser atal mynediad:** Cytunir na ddylid cael amser atal mynediad ar gyfer y safle.

**Oriau cyflenwi alcohol/cyhoedd yn bresennol ar y safle:** Bydd yr oriau cyflenwi alcohol hyd 0200 bob diwrnod o'r wythnos, a hyd 0300 nos Wener i fore Sadwrn, a hyd 0300 nos Sadwrn i fore Sul. Bydd yr amser a ganiateir i orffen diodydd yn 30 munud, felly gall y cyhoedd fod yn bresennol ar y safle hyd 0230 yn ystod yr wythnos a hyd 0300 ar nos Wener a nos Sadwrn.


**CYFARFOD CYFRYNGU ar 10fed Hydref 2016 yn ddilyn cais am Amrywiad Llawn 20/09/16, rhwng:**
**Eifion Roberts (Rheolaeth Amgylcheddol)**
**Rhingyll Charles Weller (Heddlu Dyfed Powys)**
**PCSO Mary Weller (Heddlu Dyfed Powys)**

**Catrin Davies (Swyddog Trwyddedu Cynorthwyol – Cyngor Sir Ceredigion)**
**David Hinton-Jones (Cyfreithwyr Morris & Bates)**
**Mr Huw Richard Roberts (Ymgeisydd)**
**Mrs Jane Roberts (Gwraig yr Ymgeisydd)**

**Cytunwyd ar y materion canlynol:**
- Adloniant rheoledig wedi'i gyfyngu i lawr staer y safle'n unig
- Trefn reolaidd ar gyfer symud poteli neu wydrau gwag o'r ardaloedd cyhoeddus - i'w ail-gynnwys yn y Drwydded Safle

- Dau oruchwyliwr drysau ar gyfer bob 100 o bobl sydd ar y safle neu ran ohono.  (Yn y Drwydded Safle’n barod ond angen ei gynnwys yn Atodiad 2 - Rhaglen Weithredu)
- Aelod gweithredol o’r cynllun BOBB
- Gweithredir polisi ‘Challenge 21’
- Cedwir at y Rheoliadau Tân cyfredol
- Ffenestri lawr staer y safle i’w cadw ar gau yn ystod adloniant rheoledig i gyfyngu ar faint y sŵn sydd i’w glywed o’r tu allan
- CCTV i gwrdd â safonau gofynnol Heddlu Dyfed Powys.

## Atodiad 4 – Cynlluniau



# PLAN REFERRED TO:-

